



Polisi Llythrennedd a Rhifedd

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau
See Policy Review Timetable*

DIFFINIO LLYTHRENNEDD A RHIFEDD:

LLYTHRENNEDD:

“Diffiniad o lythrennedd yw’r defnydd o sgiliau iaith mewn gweithgareddau dyddiol yn yr ysgol, yn y cartref, yn y gwaith, ac yn y gymuned. Mae’n cynnwys defnyddio sgiliau llythrennedd a gwybod sut i ddefnyddio Cymraeg a Saesneg. Mae llythrennedd yn disgrifio set o sgiliau, gan gynnwys siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, sy’n ein galluogi i wneud synnwyr o’r byd o’n cwmpas. Nid ynghylch y fecaneg o allu dadgodio geiriau ar y dudalen neu ysgrifennu brawddeg ramadegol gywir yn unig y mae a wnelo llythrennedd, er bod y rhain yn sgiliau hanfodol yn eu rhinwedd eu hunain. Mae’n ymwneud â’r sgiliau sydd eu hangen i ddeall iaith ysgrifenedig a llafar, i ddehongli’r hyn wedi ei ysgrifennu neu ei ddweud, a dod i gasgliadau o’r dystiolaeth sydd o’n gwmpas. Mae hefyd yn ymwneud â gallu i gyfathrebu yn ein tro – yn rhugl, yn argyhoeddiadol ac yn berswadiol. Mae llythrennedd yn seiliedig ar ddarllen, ysgrifennu a datblygu iaith lafar ar draws yr holl feysydd pwnc.”

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, (Llywodraeth Cymru, 2013).

RHIFEDD:

“Mae rhifedd yn sgil bywyd hanfodol ac mae angen i ddysgwyr allu gymhwyso’r sgil hwn ar draws y cwricwlwm yn y gwahanol feysydd pwnc, ac mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Mae mathemateg yn rhan o rifedd, ond mae bod yn rhifog yn golygu eich bod yn gallu cymhwyso rhai o’r sgiliau mathemategol mewn cyd-destunau llawer mwy nag mewn gwersi mathemateg ac ar draws sawl maes pwnc. Felly ein disgwyliad yw y bydd yr holl athrawon yn athrawon rhifedd. Er mwyn helpu i wahaniaethu rhwng rhifedd a mathemateg, rydym wedi diffinio rhifedd yn y modd canlynol at ddibenion y rhaglen hon: ‘Nodi a chymhwyso sgiliau rhesymu rhifiadol er mwyn datrys problem, a chynnal y gweithdrefnau rhifiadol sy’n galluogi pobl i weithio allan a dangos eu hatebion.’”

(Raglen Rhifedd Genedlaethol, Medi 2012).



1. Nod y Polisi Llythrennedd a Rhifedd:

Mae polisi llythrennedd a rhifedd ysgol gyfan yn anelu i:

- ddatblygu, cynnal a gwella safonau llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol;
- cynnig fframwaith ar gyfer cysoni dulliau dysgu ac addysgu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm;
- alluogi dysgwyr i drosglwyddo sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth rhwng pynciau;
- sicrhau olrhain a monitro gofalus o gynnydd dysgwyr, gan ddefnyddio asesu ar gyfer dysgu;
- cefnogi asesiad, cofnodi ac adrodd ar ddysgu cyson.

2. GWEITHREDU'R FFRAMWAITH LLYTHRENNEDD A RHIFEDD CENEDLAETHOL:

Diwygwyd y polisi hon i'n cynorthwyo i ymateb i ofynion y **Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol** (FfLIRh).

Mae'r ysgol yn un o'r cohort cyntaf o ysgolion sydd yn rhan o'r Rhaglen Gefnogaeth Genedlaethol. Byddwn yn cydweithio efo'n Partneriaid strategol i fynd i'r afael a disgwyliadau'r FfLIRh.

DISGWYLIADAU'r FfLIRh:

Dylai athrawon pob pwnc ddefnyddio ystod o dasgau a chyd-destunau a fydd yn cynnig modd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn ffordd ystyrlon.

- Yn Ysgol Dyffryn Conwy ystyriwn fod **pob** athro/athrawes yn gyfrifol am ddatblygu a gwerthuso sgiliau llythrennedd a rhifedd ein disgyblion fel tiwtor dosbarth ac fel athro/awes pwnc.
- Disgwylir i ddysgwyr **gymhwyso** ac **estyn** eu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws pob maes pwnc yn unol â'n cynllun gweithredu Llythrennedd a Rhifedd.

Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cynnig set o amcanion sy'n berthnasol ar draws y cwricwlwm ac sydd i gael eu hymgorffori yn yr holl bynciau. Bydd cysondeb mewn addysgu llythrennedd a rhifedd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu strategaethau a gallu i'w haddasu i wahanol gyd-destunau.

Llythrennedd ar draws y cwricwlwm: Golygai hyn ...

Llafaredd

Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau:

- Siarad

- Gwranddo
- Cydweithio a thrafodaeth

Darllen

Lleoli, dewis a defnyddio gwybodaeth:

- Strategaethau darllen

Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd:

- Deall
- Ymateb a dadansoddi

Ysgrifennu

Trefnu syniadau a gwybodaeth:

- Ystyr, pwrpasau, cynulleidfa
- Strwythur a threfniadaeth

Ysgrifennu yn gywir

- Iaith
- Llawysgrifen, gramadeg, atalnodi, sillafu

Rhifedd ar draws y cwricwlwm: Golygai hyn ...

Datblygu rhesymu rhifiadol

Mae'r llinyn hwn yn canolbwyntio ar dair elfen:

- Nodi prosesau a chysylltiadau;
- Cynrychioli a chyfathrebu;
- Adolygu.

Defnyddio sgiliau rhif

- Defnyddio ffeithiau a pherthnasoedd rhif;
- Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb;
- Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau pen ac ysgrifenedig;
- Amcangyfrif a gwirio;
- Rheoli arian.

Defnyddio sgiliau mesur

- Hyd, pwysau/ màs, cynhwysedd;
- Amser;
- Tymheredd;
- Arwynebedd a chyfaint, ongl a lleoliad.

Defnyddio sgiliau data

- Casglu a chofnodi data;
- Cyflwyno a dadansoddi data;
- Dehongli canlyniadau.

Wrth ddatblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm anelwn i:

- *Wahaniaethu er mwyn sicrhau her briodol i bob disgybl beth bynnag ei g/allu;*
- *Cydgrynhoi hyrwyddo gallu disgyblion i addasu i wahanol sefyllfaoedd yn hyderus gan gymhwyso eu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn briodol i'w gallu;*
- *Sicrhau dilyniant er mwyn creu'r amodau i bob disgybl gyrraedd neu ragori ar eu targedau;*
- *Sicrhau fod dealltwriaeth gan holl staff ddysgu am y dulliau cyffredin defnyddiwn i addysgu llythrennedd a rhifedd e.e.*
 - *y defnydd o iaith fathemategol*
 - *addysgu cyfrifiadau pen sylfaenol*
 - *addysgu cyfrifiadau ysgrifenedig effeithiol*
 - *y defnydd o gyfrifianellau.*

Er mwyn gwireddu hyn mae gennym i gyd gyfrifoldebau gwahanol:

Rolau a chyfrifoldebau:

Y Disgwyliadau ar gyfer bob athro:

Dylai pob athro/athrawes:

- fod yn gyfarwydd â'r FfLIRh a dilyniant drwyddo
- deall pwysigrwydd sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn perthynas â chodi safonau gwaith yn eu pynciau eu hunain
- integreiddio'r sgiliau hyn yn llawn yn eu cynlluniau er mwyn rhoi profiadau dysgu newydd, cyffrous i ddysgwyr
- nodi cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso sgiliau llythrennedd a rhifedd o fewn pynciau ac ar draws y cwricwlwm
- cynllunio i roi sylw i sgiliau llythrennedd/rhifedd ym mhob gwrs*
- cynllunio tasgau a fydd yn galluogi dysgwyr i ddangos dealltwriaeth a datblygu ac atgyfnerthu'r amrywiaeth o sgiliau llythrennedd a rhifedd
- cysylltu â chydlynwyr llythrennedd a rhifedd, penaethiaid pynciau/cydlynwyr pynciau ac athrawon pynciau eraill er mwyn nodi'r cyd-destunau gorau i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd
- nodi meysydd i'w mireinio ac awgrymu'r ffyrdd gorau o wella ymhellach fel rhan o'u 'sgyrsiau asesu' parhaus â dysgwyr, gan integreiddio sylwadau

ynghylch sgiliau llythrennedd a rhifedd yn eu trafodaethau a'u hadborth o ddydd i ddydd

- monitro a gwerthuso effaith y dulliau gweithredu hyn.

Y Disgwyliadau i Benaethiaid Adran/Cydlynwyr:

Gan weithio gydag athrawon, dylai pennaethiaid adrannau/cydlynwyr pynciau:

- gweithio'n agos gyda phynciau eraill i gydlynu rhaglenni gwaith, gan gynnwys amseru camau i addysgu strategaethau a chysyniadau penodol
- nodi cyfleoedd i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn cynlluniau gwaith/cynlluniau dysgu
- mapio dilyniant o ran sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol
- sicrhau y caiff sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n gysylltiedig â'r FfLIRh eu cymhwyso mewn modd cydlynol a chyson ar draws y pwnc a chan bob aelod o staff addysgu
- sicrhau y caiff sgiliau llythrennedd a rhifedd sy'n gysylltiedig â'r FfLIRh eu cymhwyso mewn modd cydlynol a chyson ar draws pynciau eraill a chan bob aelod o staff addysgu
- gweithio gydag adrannau ac athrawon i gynllunio tasgau cynyddol, gwahaniaethol a heriol a fydd yn galluogi dysgwyr i ddangos dealltwriaeth a datblygu ac atgyfnerthu'r ystod lawn o sgiliau llythrennedd a rhifedd
- cysylltu â chydlynwyr llythrennedd a rhifedd er mwyn rhannu asesiadau ffurfiannol o ddysgwyr a charfanau o ran meysydd o gryfder a meysydd i'w datblygu
- monitro a gwerthuso effaith y dulliau gweithredu hyn ar safonau dysgu mewn pynciau.

Pennaeth Cynnydd blwyddyn 7:

- Cydweithio efo'r Pennaethiaid Cynradd ac athrawon CA2 er mwyn sicrhau fod data profion ac asesiadau diwedd CA2 yn trosglwyddo yn effeithiol rhwng CA2 a CA3 o ran sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion;
- Cydweithio efo'r Cydlynnydd Llythrennedd, Cydlynnydd Rhifedd a'r Cydlynnydd ADY er mwyn sicrhau fod y wybodaeth yn cael ei drosglwyddo i systemau tracio a thargeddu'r ysgol ac yn cael ei ddsbarthu i athrawon a Pennaethiaid Adran er mwyn sicrhau darpariaeth pwnc a rhaglenni ymyrraeth briodol.

Y Cydlynnydd ADY:

- Cydweithio efo rheolwyr eraill o fewn yr ysgol a'r dalgylch er mwyn sicrhau fod gwybodaeth am gyflawniad a chynnydd disgyblion ADY yn cael ei

drosglwyddo yn effeithiol rhwng CA2 a CA3 ac i'r holl staff dysgu yn Ysgol Dyffryn Conwy

- Sicrhau fod gwybodaeth o'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol ac anghenion penodol disgyblion o ganlyniad yn cael ei gynnwys yn CAU'r disgyblion ADY
- I gydweithio efo'r Cydlynnydd Llythrennedd, y Cydlynnydd Rhifedd a Penaethiaid pynciau Mathemateg, Saesneg a'r Gymraeg i sicrhau fod cynlluniau ymyrraeth yn cael eu darparu i ddisgyblion wedi ei selio ar ganfyddiadau y profion darllen a rhifedd cenedlaethol
- Monitro cynnydd disgyblion ADY yn ôl eu disgwyliadau llythrennedd a rhifedd fel rhan o gylch hunan arfarnu'r adran ADY ac ar y cyd efo'r Uwch Rheolwr FfLIRh drwy'r cylch hunan arfarnu ysgol gyfan
- Cydlynu gwaith y tîm cefnogi dysgu i roi blaenoriaeth i gefnogi sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm
- Cydweithio efo Uwch Athrawes yr Uned ADY i fonitro cynnydd disgyblion yr Uned yn eu sgiliau llythrennedd ar rifedd yn ôl eu CAU a'u cyflawniad blaenorol

Dylai uwch reolwyr:

- nodi anghenion penodol yr ysgol o ran y cwricwlwm a gweithgarwch asesu, ystyried y posibiladau a dod i benderfyniadau ynghylch trefniadaeth y cwricwlwm cyfan a chynllunio llwybrau dysgu er mwyn diwallu anghenion dysgwyr unigol
- nodi cyfleoedd i rannu arfer da o fewn yr ysgol a hwyluso hynny
- monitro'r amrywiaeth o weithgareddau addysgu a dysgu, gan sicrhau bod dulliau gweithredu wedi'u hintegreiddio'n llawn
- adolygu a diweddarau addysgeg drwy ddarparu hyfforddiant priodol gan sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol rhwng ysgolion a/neu o fewn ysgolion sy'n defnyddio athrawon eithriadol ym meysydd llythrennedd a rhifedd i weithredu fel arweinwyr systemau
- gweithio gyda chydlynwyr llythrennedd a rhifedd er mwyn cydlynu adborth i rieni/gofalwyr
- gweithio gyda chydlynwyr llythrennedd a rhifedd er mwyn trefnu a darparu hyfforddiant ar gyfer yr ysgol gyfan
- cydweithio efo rheolwyr ysgolion y Dalgylch er mwyn sicrhau cynllunio effeithiol ar gyfer dilyniant disgyblion yn eu sgiliau llythrennedd a rhifedd wrth drosglwyddo
- Cefnogi ysgolion Cynradd y Dalgylch wrth gynllunio a darparu hyfforddiant a chreu cymunedau dysgu proffesiynol ym maes llythrennedd a rhifedd
- gwerthuso effaith yr hyfforddiant hwn o ran codi safonau i bob dysgwr

- monitro a gwerthuso safonau llythrennedd a rhifedd drwy'r ysgol gyfan ac effaith camau a gymerwyd i geisio codi'r safonau hyn a chyflwyno adroddiadau i'r llywodraethwyr.

Dylai cydlynwyr llythrennedd a rhifedd weithio gydag uwch reolwyr, arweinwyr pwnc, athrawon a chynorthwyrwyr addysgu a dysgu i:

- adolygu darpariaeth y FfLIRh a nodi cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso sgiliau llythrennedd a rhifedd
- archwilio enghreifftiau presennol o arfer da ym meysydd llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm
- rhoi cyngor ar y ffordd y mae safonau llythrennedd a rhifedd da yn helpu i wella safonau ar draws y cwricwlwm, yn ogystal â sut i gyflwyno ac atgyfnerthu'r gwaith o addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd cydlynu'r gwaith o lunio/adolygu un o bolisiâu'r ysgol ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm
- sicrhau dull cyson o weithredu ym mhob rhan o'r ysgol
- nodi pa feysydd o lythrennedd a rhifedd y mae athrawon lleiaf hyderus yn eu haddysgu yng nghyd-destun pwnc penodol a thrafod y mesurau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd gydag uwch reolwyr
- hwyluso/brocera hyfforddiant mewn swydd yn yr ysgol (naill ai fel ysgol gyfan neu gyda grŵp o bynciau/adrannau) sy'n ymdrin ag agweddau ar lythrennedd a rhifedd
- gwerthuso'r effaith a gaiff gweithredu'r FfLIRh a'r dulliau uchod ar yr ysgol gyfan.

Y disgwyliadau ar gyfer cefnogwyr dysgu:

- i fod yn gyfarwydd â'r FfLIRh a dilyniant drwyddo
- i ddeall pwysigrwydd sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn perthynas â chodi safonau gwaith yn eu rôl o gefnogi disgyblion penodol a grwpiau o ddisgyblion
- cydweithio efo athrawon a disgyblion ar dasgau fydd yn galluogi dysgwyr i ddangos dealltwriaeth a datblygu ac atgyfnerthu amrywiaeth o sgiliau llythrennedd a rhifedd
- cysylltu â chydlynwyr llythrennedd a rhifedd, penaethiaid pynciau/cydlynwyr pynciau ac athrawon pynciau eraill er mwyn datblygu'r strategaethau a chyd-destunau gorau i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn eu rôl o ddydd i ddydd
- chwarae rôl allweddol wrth gynorthwyo disgyblion i ddatblygu ac i werthuso eu sgiliau llythrennedd a rhifedd gan gynnig adborth cadarnhaol ac adeiladol i'w cynorthwyo i symud ymlaen yn eu camau nesaf.

Y disgwyliadau ar gyfer y Corff Llywodraethol:

- bod yn llwyr ymwybodol o'r FfRhC;
- penodi llywodraethwr/wyr cyswllt i fod yn gyfrifol yn benodol am y FfLIRh;
- gweithredu fel cyfeillion beirniadol wrth herio canfyddiadau'r ysgol am safonau llythrennedd a rhifedd ac wrth weithredu fel aelodau cyswllt i adrannau a meysydd allweddol yr ysgol;
- fod yn llwyr ymwybodol o'r angen i wella safonau llythrennedd a rhifedd dysgwyr, a'r blaenoriaethau penodol mae'r ysgol wedi eu adnabod i fynd i'r afael a nhw i wella safonau llythrennedd a/neu rhifedd;
- bod yn ymwybodol o'r strategaethau a'r adnoddau a ddefnyddir i hyrwyddo gweithrediad effeithiol y FfRhC;
- fynychu rhai o'r diwrnodau hyfforddiant ysgol gyfan/dalgylch sydd wedi'u neilltuo i lythrennedd a/neu rhifedd;
- cyfrannu at ymdrechion yr ysgol i hysbysu rhieni a'u cynnwys yn dysgu llythrennedd a rhifedd eu plant.

Dylai rhieni/gofalwyr:

- fod yn ymwybodol o bwysigrwydd gwella sgiliau rhifedd eu plant a'r manteision o wneud hynny;
- fod yn ymwybodol o'r strategaethau, yr adnoddau a'r cyfleoedd a ddefnyddir i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o rhifedd yn yr ysgol gan gynnwys adnoddau ar safwe'r ysgol a Moodle yr ysgol;
- fod yn ymwybodol o'r pwynt cyswllt ysgol ar gyfer llythrennedd a rhifedd a chael eu hannog i fynychu sesiynau i dderbyn canllawiau ar gyfer cefnogi sgiliau llythrennedd a/neu rhifedd yn y cartref.

Gweithredir y polisi drwy:

1. ein **Strategaeth Llythrennedd a Strategaeth Rhifedd (Atodiad 1 a 2)**;
2. gynlluniau gweithredu sydd yn gysylltiedig â'n **Cynllun Gwella Ysgol a Chynlluniau Gwella Adrannau**;
3. llunio a gweithredu rhaglen DPP cynhwysfawr ar gyfer staff yn ol eu hanghenion gan gynnwys Arweiniad i Staff ar Lafaredd, Darllen, Ysgrifennu a Rhifedd;
4. gysylltu â pholisiau allweddol eraill megis Polisi Staffio, Polisi Rheoli Perfformiad a Pholisi Asesu ac Adrodd yr ysgol;
5. chydweithio a'n partneriaid strategol: ein disgyblion, rhieni a'r corff llywodraethol; ysgolion cynradd Dalgylch YDC; swyddogion yr ALL; GWE; a Partner RhGG; a
6. drwy rannu arferion da o fewn a thu hwnt i'r ysgol drwy ein CDPau ysgol gyfan a rhwydweithiau proffesiynol eraill.

Dulliau Dysgu Llythrennedd a Rhifedd Cytunedig:

- Strategaethau gwaith grŵp effeithiol e.e. cardiau rôl, defnydd o drefnyddion graffig;
- Strategaethau Darllen da gan gynnwys dulliau ymchwilio effeithiol;
- Defnydd o gysyllteiriau a dealltwriaeth o'r 6 testun anllenyddol allweddol ynghyd a 'Gwerthuso' a 'Dadansoddi';
- Meini Prawf Llwyddiant ar gyfer ysgrifennu yn gywir ar draws y cwricwlwm;
- Poster Rhifedd A3 ac A4, llawlyfr disgybl a llawlyfr athrawon;
- Mat Myfyrio Dysgu ac Addysgu Llythrennedd a Rhifedd; a'r
- Llawlyfr Dysgu ac Addysgu.

(gweler ein poster i ac adnoddau dysgu ac addysgu perthnasol).

Darperir arweiniad pellach drwy adnoddau dysgu ac addysgu perthnasol ar Staff Docs, Moodle a Safwe'r ysgol.

ATODIADAU ALLWEDDOL:

ATODIAD 1: ARWEINIAD LLAFAREDD

ATODIAD 2: ARWEINIAD DARLLEN

ATODIAD 3: ARWEINIAD YSGRIFENNU

ATODIAD 4: ARWEINIAD RHIFEDD I ATHRAWON

ATODIAD 1: Strategaeth Llythrennedd


NODAU:

- Codi safonau **cyfathrebu, iaith a llythrennedd** ar draws y cwricwlwm;
- Codi safonau o fewn pynciau iaith;
- Codi safonau pynciol trwy ddefnydd mwy effeithiol a phwrpasol o fedrau cyfathrebu.

AMCANION:

(1) ADOLYGU ac ADDASU STRATEGAETH LLYTHRENNEDD YSGOL GYFAN

- Hunan arfarnu strategaeth a gweithdrefnau cyfredol yr ysgol er mwyn adnabod agweddau sydd angen sylw.
- Sicrhau bod arweiniad ysgol gyfan e.e. drwy Arweinydd / Cydlynnydd Llythrennedd.
- Llunio a gweithredu strategaeth llythrennedd ar lefel ysgol gyfan ac adrannol.
- Cynnwys blaenoriaethau o'r hunan arfarniad yn y CDY/CDA.
- Monitro ac arfarnu gweithrediad y strategaeth/cynllun datblygu.



(3) MONITRO, ARFARNU A CHYNLLUNIO STRATEGOL PELLACH

- Gweithrediad y strategaeth yn cael ei fonitro yn ofalus.
- Dewis agwedd(au) o lythrennedd/ cyfathrebu fel un o'r meysydd ffocws ar gyfer hunan arfarniad er mwyn gallu adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu ymhellach.
- Rhannu canlyniadau gyda'r staff a chynllunio dilyniant gan gynnwys blaenoriaethau yn y CDY/CDA ym maes llythrennedd/cyfathrebu.

ATODIAD 2: Strategaeth Rhifedd


NODAU:

- Codi safonau **rhifedd** ar draws y cwricwlwm;
- Codi safonau o fewn mathemateg;
- Codi safonau pynciol trwy ddefnydd mwy effeithiol a phwrpasol o fedrau rhif.

AMCANION:

(1) ADOLYGU ac ADDASU STRATEGAETH RHIFEDD YSGOL GYFAN

- Hunan arfarnu strategaeth a gweithdrefnau cyfredol yr ysgol er mwyn adnabod agweddau sydd angen sylw.
- Sicrhau bod arweiniad ysgol gyfan e.e. drwy Arweinydd / Cydlynnydd rhifedd.
- Llunio a gweithredu strategaeth rhifedd ar lefel ysgol gyfan ac adrannol.
- Cynnwys blaenoriaethau o'r hunan arfarniad yn y CDY/CDA.
- Monitro ac arfarnu gweithrediad y strategaeth/cynllun datblygu.



(3) MONITRO, ARFARNU A CHYNLLUNIO STRATEGOL PELLACH

- Gweithrediad y strategaeth yn cael ei fonitro yn ofalus.
- Dewis agwedd(au) o rifedd fel un o'r meysydd ffocws ar gyfer hunan arfarniad er mwyn gallu adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu ymhellach.
- Rhannu canlyniadau gyda'r staff a chynllunio dilyniant gan gynnwys blaenoriaethau yn y CDY/CDA ym maes rhifedd.